

# Datganiad Polisi'r Iaith Gymraeg

Mae BHS Qualifications (BHSQ) wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl weithgareddau yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n ddiogel, yn deg, yn dryloyw ac yn wrthrychol. Mae'r polisi hwn ar gyfer holl gwsmeriaid, rhanddeiliaid a dysgwyr BHSQ.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag argaeledd cymwysterau BHSQ yn Gymraeg.

Bydd y polisi hwn yn:

- Nodi sefyllfa bresennol BHSQ ynghylch darparu ei gymwysterau yn Gymraeg.
- Nodi sut y gall ymgeiswyr gwblhau cymhwyster BHSQ yn Gymraeg.

Nid yw BHSQ yn darparu unrhyw gymwysterau yn Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd yn dymuno cymryd cymhwyster yn y Gymraeg gall wneud hynny.

Mae gan BHSQ bolisi o'r enw Asesu Cymwysterau BHSQ mewn iaith heblaw Saesneg. Mae'r polisi hwn yn egluro'r broses o gwblhau cymhwyster mewn iaith heblaw Saesneg, gan gynnwys dyluniad a chynnwys y tystysgrifau.

Er eglurder, byddai'r ymgeiswyr hynny sy'n dymuno cwblhau cymhwyster BHSQ yn y Gymraeg yn dilyn y polisi hwn. Bydd yr ymgeiswyr hyn yn derbyn tystysgrif sy'n nodi'n glir taw Cymraeg oedd iaith yr asesiad.

## Monitro ac adolygu

Caiff y ddogfen hon a'i chynnwys eu hadolygu bob tair blynedd, neu'n gynt na hynny os oes angen er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Dyddiad adolygu: Ionawr 2027

## Hanes y ddogfen

Fersiwn	Dyddiad adolygu	Rheswm
1	17/01/2024	Gweithredu polisi newydd

*Sylwer:* Nid oes modd rheoli'r ddogfen hon ar ôl ei hargraffu. Holwch BHSQ am y fersiwn ddiweddaraf.

Cwmni wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr yw'r British Horse Society Qualifications Limited ac mae'n masnachu fel BHS Qualifications (BHSQ).